



PLANT YNG NGHYMURU
CHILDREN IN WALES

SWYDDOG HYFFORDDI

Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

Cyflwyniad

Teitl Swydd:	Swyddog Hyfforddi
Yn Adrodd i'r:	Uwch Swyddog Hyfforddi
Lleoliad:	Caerdydd – gweithio'n ystwyth gartref neu yn y swyddfa
Oriau Gwaith:	35 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n eglur gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Pwrpas y fanyleb person yw nodi, mor fanwl â phosibl, yr isafswm o ran sgiliau, profiad a gwybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr i gyflawni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais am y swydd.** Bydd methu â gwneud hynny yn lleihau'n sylweddol eich cyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

Bydd y broses ymgeisio yn cau am **ganol dydd ar 8 Mehefin 2022.**

Bydd ein panel recriwtio yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld. Ni fyddant yn derbyn eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio'n gyfrinachol.

I arbed costau, ni allwn gydnabod eich cais ond trwy e-bost.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch eich hysbysu trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni erbyn **27 Mehefin 2022.**

Gwybodaeth Bellach

Contract: Cyfnod penodol – 12 mis gyda phosibilrwydd o estyn

Oriau Gwaith: 35 awr yr wythnos

Graddfa Gyflog: £32,878 pro rata

Gwyliau Blynnyddol: 25 diwrnod y flwyddyn pro rata

Dull Talu: Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod staff ar y 15fed o bob mis

Pensiwn: Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan.

Lleoliad gwaith: Plant yng Nghymru, 21 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BY

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd:	Swyddog Hyfforddi
Yn Adrodd i'r:	Uwch Swyddog Hyfforddi
Lleoliad:	Caerdydd – trefniadau gweithio ystwyth gartref neu yn y swyddfa
Oriau Gwaith:	35 awr yr wythnos

Prif ddiben y rôl:

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant effeithiol, o safon uchel, sy'n cynnwys Diogelu a chynnwys arall cysylltiedig â'r sector plant. Bydd yr hyfforddiant yn digwydd yn rhithwir ar-lein neu wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ledled Cymru.

Bydd y Swyddog Hyfforddi hefyd yn cyfrannu at ddatblygu, marchnata, a darparu rhaglen dysgu a datblygu effeithiol, o safon uchel, wedi ei hachredu ac fel arall, ar gyfer unigolion a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru ac ar eu rhan.

Bydd y Swyddog Hyfforddi, gan weithio fel rhan o dîm, yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu'r rhaglen hyfforddi ymhellach a sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu amcanion strategol Plant yng Nghymru mewn perthynas â CCUHP, a deddfwriaeth berthnasol.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu a chynnal rhaglen hyfforddiant dreigl Plant yng Nghymru ar gyfer sefydliadau sector statudol, gwirfoddol ac annibynnol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac ar eu rhan yng Nghymru.
- Datblygu a chyflwyno cyrsiau hyfforddi wedi'u hachredu a heb eu hachredu oddi mewn i'r rhaglen ar-lein yn rhithwir neu wyneb yn wyneb, a llywio hynny â gwybodaeth gynhwysfawr a ddiweddarwyd am y galwadau cyfredol yn y sectorau proffesiynol perthnasol sy'n ymateb i gylch gwaith Plant yng Nghymru a'r agenda flaenoriaeth yng Nghymru.
- Cynorthwyo i gynnal a datblygu ymhellach bortffolio o hyfforddiant a all gael ei gomisiynu ar sail ad hoc ac ar ffurf hyfforddiant mewnol gan sefydliadau, gan ddefnyddio profiad o'r sector plant neu arbenigedd yn y maes.
- Nodi a mynd ati'n rhagweithiol i ddilyn cyfleoedd newydd i ehangu a thyfu rhaglen hyfforddi bresennol Plant yng Nghymru, gan gynnal perthynas â chomisiynwyr a deiliaid cyfrifon allweddol.
- Cynorthwyo i nodi, comisiynu a chontractio darparwyr hyfforddiant (yn unigolion a sefydliadau) sydd ag arbenigedd cydnabyddedig yn eu meysydd i gyfrannu at y rhaglen hyfforddi.
- Cyfranogi yn y gwaith o sicrhau ansawdd y rhaglen hyfforddi drwy ddatblygu a chymhwyso'n gyson offer gwerthuso mewnol a chyflawni achrediad allanol ar gyfer y ddarpariaeth lle bo'n briodol.
- Nodi cyfleoedd i gynnwys plant a phobl ifanc yn y rhaglen hyfforddi, gan ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad yng nghyd-destun datblygu a chyflwyno.
- Cynorthwyo i gynhyrchu adroddiadau, gan gynnwys coladu gwybodaeth ar gyfer adroddiadau chwarterol y Cynllun Busnes, Byrddau Ymddiriedolwyr a'r Uwch Dîm Rheoli yn ôl y gofyn.

- Gweithio gyda staff eraill Plant yng Nghymru i ddatblygu rhaglen farchnata wedi ei brandio a lledaenu gwybodaeth fydd yn cynnwys defnyddio gwefan Plant yng Nghymru.
- Cynorthwyo'r Uwch Swyddogion Hyfforddi i sicrhau bod rhaglen hyfforddi Plant yng Nghymru yn gwneud cyfraniad ariannol y cytunwyd arno i'r sefydliad.
- Sicrhau bod y rhaglen hyfforddi a'i chynnwys yn adlewyrchu amcanion strategol Plant yng Nghymru mewn perthynas â CCUHP.
- Datblygu a chyfrannu at geisiadau ariannu Plant yng Nghymru yn ôl y gofyn.
- Cyfranogi mewn cyfarfodydd goruchwylio unigol, cyfarfodydd cynllunio ac adolygu, a chyfarfodydd staff rheolaidd.
- Cyflawni tasgau gweinyddol priodol i gefnogi'ch gwaith eich hun yn ôl y gofyn.
- Cynrychioli'r sefydliad mewn amrediad o gyfarfodydd a digwyddiadau yn ôl y gofyn.
- Hyrwyddo a gwneud cyfraniad cadarnhaol at bolisi dwyieithog y sefydliad.
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau eraill y cytunir arnynt gyda'ch rheolwr llinell, Cyfarwyddwr Datblygu a Chyflawni Busnes neu'r Prif Weithredwr.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol gan y gall fod dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae Plant yng Nghymru yn gofyn bod deilydd y swydd yn eu cyflawni o bryd i'w gilydd, wrth gyfrannu at gyflawni ei weithgareddau.

Manyleb Person

Gofynion Allweddol - Hanfodol

- Wedi cymhwyso at lefel gradd neu'n meddu ar brofiad perthnasol cyfatebol yn y sector plant yng Nghymru.
- Gwybodaeth ymarferol dda am y system amddiffyn plant, o'r pryderon cychwynnol i atgyfeirio a'r prosesau sy'n rhan ohoni.
- Maes gwybodaeth arbenigol perthnasol, e.e. Datblygiad Plentyn, arweinyddiaeth a rheolaeth, Mathau Peryglus o Ymddygiad, Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- O leiaf ddwy flynedd o brofiad mewn rôl hyfforddi neu gyfatebol.
- Gallu arddangos ymrwymiad i werthoedd ac egwyddorion Plant yng Nghymru a phenderfyniad i hybu ei ddatblygiad yn effeithiol.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig datblygedig.
- Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol.
- Profiad o ddylunio, datblygu a chyflwyno pecynnau hyfforddi.
- Cymhwysedd wrth weithio gyda gwybodaeth a thechnoleg, a phrofiad o ddefnyddio offer cyflwyno ar-lein fel Microsoft Teams a Zoom yn effeithiol.
- Arddangos dealltwriaeth o sicrhau ansawdd.
- Gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.
- Gallu dangos ymwybyddiaeth a'r gallu i gyflwyno hyfforddiant sy'n sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth ac arfer cynhwysol.
- Gwybodaeth am dueddiadau polisi cyfredol yn y sector plant a theuluoedd, hawliau plant, cyfranogiad a pholisi cyhoeddus.
- Dealltwriaeth dda o anghenion staff ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Arddangos dealltwriaeth a phrofiad o waith amlasiantaeth ac mewn partneriaeth ar draws sectorau.
- Ymwybyddiaeth o CCUHP, Hawliau Plant a Chyfranogiad.

Gofynion Allweddol – Dymunol

- Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau cyfredol mewn darpariaeth hyfforddi, gan gynnwys cefnogaeth ar-lein ac offer cyflwyno.
- Gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dealltwriaeth dda a phrofiad o gynhyrchu incwm.
- Tystiolaeth o sgiliau a llwyddiant wrth ddatblygu syniadau marchnata a chynhyrchu busnes.
- Gwybodaeth am wasanaethau/becynnau hyfforddiant marchnata i ystod eang o sefydliadau.
- Trwydded yrru cyfredol a char at eich defnydd i gyflawni gofynion y swydd.

Gwybodaeth Gefndir

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Sefydlwyd y corff ym mis Chwefror 1992 yn elusen gofrestredig. Rydyn ni'n gorff o aelodau, ac mae'r aelodau hynny'n dod o'r trydydd sector, y sector statudol a'r sector annibynnol.

Gyda'n gilydd rydyn ni'n:

- Cyfrannu at wireddu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o safon a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau llais i blant a phobl ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn cynnal nifer o weithgareddau i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel sefydliad o aelodau rydyn ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall aelodau fod yn rhai corfforaethol neu'n unigolion, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, cyrff gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau hunangymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, eraill sy'n rhoi grantiau, ac incwm rydyn ni'n ei gynhyrchu ein hunain.

Mae Bwrdd o Ymddiriedolwyr yn llywodraethu gwaith y sefydliad

<http://www.childreninwales.org.uk/>